**Cyfarfod Llawn 2001 – 2002 (52)**

**Dydd Iau, 28 Chwefror 2002**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Atebwyd y 5 cwestiwn cyntaf.

**9.28am**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**
Atebwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 2.

**9.45am**
**Cwestiynau TGCh i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Atebwyd y 6 chwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd cwestiwn 5 ar gyfer ateb ysgrifenedig.

**10.05am**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar Adolygiad o Leoliad Swyddfeydd y Cynulliad.**

**10.34am**
**Cymeradwyo'r Adroddiad Grant Arbennig (rhif 4) (2002) ar Ddyraniadau Taliadau Trothwy Athrawon**
*NDM970* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan S88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 4*)* (Cymru*)* 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Derbyniwyd y cynnig.**

**10.48am**
**Dadl ar Ganlyniad Ad-drefnu Cyngor Celfyddydau Cymru**
*NDM972 -* Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Croesawu cwblhau prif rannau Cynllun Ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys:

i. Gweithdrefnau newydd symlach i wella'r gwasanaeth i sefydliadau ac unigolion sy'n ceisio grantiau

ii. Datganoli gwasanaethau a chryfhau swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru

iii. Cryfhau tîm rheoli'r Cyngor a gweithdrefnau a systemau mwy effeithiol

2. Croesawu'r camau a gymerwyd mewn perthynas â strategaeth bum mlynedd ar gyfer datblygu'r celfyddydau, ac y bwriedir ei chwblhau erbyn dechrau haf 2002.

3. Croesawu cynnydd o bron i 23% yng nghyllideb Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 2002-03 sy'n sicrhau sylfaen gadarnach ar gyfer ariannu'r celfyddydau.

Anfonwyd Cynllun Ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru at yr Aelodau drwy e-bost ar 21.02.02.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd 1(ii):
", gan sefydlu swyddfa ar wahân yn Ne Cymru, wedi ei lleoli yn y Cymoedd."

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:
" , ond yn galw am i'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn gael ei roi i grwpiau celf a buddiolwyr yn hytrach na'i wario ar weinyddu Cyngor y Celfyddydau."

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cydnabod bod angen am wella hyder y cyrff celfyddydol yn y corff cyhoeddus hwn a noddir gan y Cynulliad, gan eu bod yn parhau'n amheus iawn o Gyngor Celfyddydau Cymru.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cymeradwyo'r argymhelliad yn y Cynllun Ailstrwythuro bod yn rhaid i'r Cyngor Celfyddydau ddangos ei fod yn agored ac yn ymgynghorol wrth ddatblygu polisi, er mwyn gwella ei berthynas ag ymarferwyr ym maes y celfyddydau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cydnabod bod yn rhaid i benderfyniadau ariannu a wneir gan y Cyngor ar ôl ei ailstrwythuro gael eu gwneud ar sail asesiad a gwerthusiad rheolaidd a gwrthrychol.

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cyfarwyddo'r Gweinidog i sicrhau y cedwir costau ailstrwythuro'r Cyngor i'r lleiafswm fel bod cymaint o arian ag y bo modd yn cael ei ddyrannu i brosiectau celf ledled Cymru yn hytrach nag ar fiwrocratiaeth.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 7; Ymatal 14; Yn erbyn 26; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3**

O blaid 7; Ymatal 15; Yn erbyn 26; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4**

O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5**

O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6**

O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Y cynnig**

O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 3; Cyfanswm 48

**Derbyniwyd y cynnig.**

**11.40am**
**Dadl ar y Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Genedlaethol a Chymeradwyo'r Strategaeth**
*NDM971* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. nodi, gyda phryder, y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n dysgu ieithoedd tramor;

2. croesawu'r Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Genedlaethol a'r gweithredu arfaethedig a nodir; a

3. gwahodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i argraffu'r strategaeth a'i dosbarthu'n eang yn y sectorau addysg a hyfforddiant.

Anfonwyd y Strategaeth Ieithoedd Tramor Modern Genedlaethol at yr Aelodau drwy e-bost ar 21.02.02.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cydnabod bod angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r gyfradd isel sy'n dewis astudio ieithoedd tramor yng Nghymru.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Mynegi pryder am ein gallu i gystadlu yn Ewrop yn y dyfodol, o ganlyniad i'r gostyngiad yn y nifer sy'n dysgu ieithoedd tramor.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 8; Ymatal 12; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 8; Ymatal 12; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Y cynnig**

O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48

**Derbyniwyd y cynnig.**

**12.26pm**
**Dadl Fer:**
***NDM969* Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Ffermydd Gwynt**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.47pm**

*********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Mawrth, 5 Mawrth 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a gyflwynwyd ar 28 Chwefror 2002**

Cyfrifon Cryno NHS Cymru 2000-2001 - LD1301

**Dogfennau a gyflwynwyd ar 26 Chwefror 2002**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2002/2003) (Cymru) 2002 - LD1282
Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1281

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1280
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002 - LD1279
Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Pellach) (Cymru) 2002 - LD1278
Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002 - LD1277
Plant Protection Products (Amendment) Regulations 2002 - LD1276. Dim copi Cymraeg ar gael.
Cyngor Chwaraeon Cymru Cronfa Ddosbarthu'r Loteri 2000-2001 - LD1275

**ADRODDIADAU'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 27 CHWEFROR 2002**

LC425 - The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2002 - LD1283. Dim copi Cymraeg ar gael.
LC426 - Gorchymyn Diddymu Pwyllgor Ymgynghorol dros Gymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) 2002 - LD1284
LC427 - Gorchymyn Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2002 - LD1285
LC428 - Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor Ystyriaethau Anfasnachol) (Cymru) 2002 - LD1286
LC429 - The Fisheries and Aquaculture Structures (Grants) (Wales) Regulations 2002 - LD1287. Dim copi Cymraeg ar gael.
LC430 - Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 2002 - LD1288
LC431 - Gorchymyn Cimychiaid a Chimychiaid Cochion (Gwahardd eu Pysgota a'u Glanio) (Cymru) 2002 - LD1289
LC432 - Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002 - LD1290
LC418 - Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 - LD1291
LC419 - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 - LD1292
LC420 - Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 - LD1293
LC421 - Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hyn) (Diwygio)(Cymru) 2002 - LD1294
LC422 - Rheoliadau'r Gronfa Ddata Gwartheg (Diwygio) (Cymru)2002 - LD1295
LC423 - Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 - LD1296
LC424 - Rheoliadau Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid (Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid o China) (Rheoli) (Cymru) 2002 - LD1297
LC358 - The Import and Export Restrictions (Foot-and-Mouth Disease) (Wales) (No. 10) Regulations 2001 - LD1298. Dim copi Cymraeg ar gael.
LC361 - The Import and Export Restrictions (Foot-and-Mouth Disease) (Wales) (No. 10)

(Fees) Regulations 2001 - LD1299. Dim copi Cymraeg ar gael.
LC370 - Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Diwygio) (Rhif 11) (Cymru) 2002 - LD1300